www.mantellgwynedd.com

# Mantell

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 60 • **Chwefror 2013**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| O Mantell | 2 |
| Newyddion | 3 |
| Ffrindia' | 4 |
| Canolfan Wirfoddoli | 5 |
| Plant a Phobl Ifanc | 6 |
| Cymunedau Mentrus | 7 |
| Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles | 8 |
| Teulu Ni / B2C | 9 |
| Gwneud y Cysylltiadau | 10 |
| Cyfleoedd Ariannu | 11 |
| Digwyddiadau a Hyfforddiant | 12 |


ESF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your future**
European Social Fund

ERDF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol**
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
**Europe & Wales: Investing in your future**
European Regional Development Fund

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

## CAB Gwynedd yn derbyn £465,000 o arian Loteri er mwyn gwella mynediad at gyngor ar ddyledion, budd-daliadau a chyflogaeth i rai o drigolion mwyaf ynysig y sir

Trwy weithio mewn partneriaeth gyda Mantell Gwynedd mae CAB wedi llwyddo gyda chais i Gronfa'r Loteri Fawr am £465,000. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i brynu a gosod offer lloeren ar Uned Symudol Mantell Gwynedd. Trwy'r lloeren bydd trigolion mewn rhai o ardaloedd mwyaf gwledig Gwynedd yn cael mynediad at gynghorwyr fydd yn gallu darparu cyngor arbenigol. Bydd hyn yn golygu llawer llai o deithio i rhai o drigolion y sir ac yn cwtogi ar y rhestrau aros am wasanaeth. Byddant yn gallu camu fewn i'r Uned Symudol a chael cyngor arbenigol yn y fan a'r lle yn hytrach na theithio ar draws gwlad i un o'r Canolfannau Cynghori.

Disgwylir i'r gwasanaeth gychwyn ym mis Ebrill 2013.

Os ydych o'r farn y gall trigolion eich pentref gael budd o'r gwasanaeth yna cysylltwch hefo CAB ar **01286 682302**.

**MANTELL GWYNEDD**

Swyddfa Gofrestredig:
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon,
Gwynedd, LL55 1AB.
Ffôn: 01286 672626 • Ffacs: 01286 678430

Swyddfa Gofrestredig:
Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau,
Gwynedd, LL40 1SB.
Ffôn: 01341 422575 • Ffacs: 01341 422147

E-bost: **ymholiadau@mantellgwynedd.com**

Gwefan: **www.mantellgwynedd.com**

## STAFF MANTELL GWYNEDD

**Prif Swyddog:**
Bethan Russell Williams

**TÎM DATBLYGU A GWASANAETHAU**
**Uwch Swyddog Datblygu a Gwasanaethau:**
Delyth Vaughan
**Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol:**
Bet Huws
**Swyddog Gwneud y Cysylltiadau:**
Carol Evans
**Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:**
Carwyn Humphreys

**PROSIECT TEULU NI**
**Rheolydd Prosiect Teulu Ni:**
Mair Richards

**PROSIECT BUSNES YN CEFNOGI CYMUNEDAU**
**Swyddog Busnes yn Cefnogi Cymunedau:**
Emily Williamson
**Swyddog Gweinyddol Busnes yn Cefnogi Cymunedau:**
Rosie Seymour

**TÎM IECHYD**
**Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym:**
Sioned Llwyd Larsen
**Rheolydd Prosiect Ffrindia':**
Carys Williams
**Cydlynydd Gwirfoddolwyr Arfon:**
Nia Haf Jones
**Cydlynydd Gwirfoddolwyr Dwyfor:**
Dawn Thomas
**Cydlynydd Gwirfoddolwyr Meirionnydd:**
Gwenlli Haf Evans

**TÎM CYLLID A GWEINYDDOL**
**Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu:**
Ceren Williams
**Swyddog Gweinyddol:**
Bronwen Rowlands
**Cynorthwy-ydd Cyllid:**
Tracy Williams
**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:**
Tracy Lynne Rotheram
**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:**
Ellen ap Dafydd
**Derbynnydd:**
Tayera Khan

**TÎM CANOLFAN WIRFODDOLI**
**Cydlynydd Gwirfoddoli:**
Rhianon Jones
**Swyddog Gwirfoddoli:**
Ann Angharad Fleming
**Swyddog Gwirfoddoli:**
Iola Till
**Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid a Swyddog Prosiect BIG:**
Mirain Roberts

# Nodyn gan y Prif Swyddog

'Dw'n i ddim pryd mae'n mynd yn rhy bell i fewn i'r flwyddyn i beidio dweud "blwyddyn newydd dda" ond gan mai hon yw newyddlen cynta'r flwyddyn, er ei bod yn fis Chwefror, Blwyddyn Newydd Dda i chi oll!

Mi fydd hon yn flwyddyn allweddol yn hanes y trydydd sector yng Nghymru am fod gwaith ar y gweill gan Llywodraeth Cymru i edrych o'r newydd ar y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r Trydydd Sector yng Nghymru. Mewn Datganiad Gweinidogol yn gynharach eleni, dywedodd Carl Sargeant, y Gweinidog gyda chyfrifoldeb dros llywodraeth leol a chymunedau, ei fod yn bwriadu gwneud y berthynas allweddol hon mor gryf ac effeithiol a phosib. Yn arbennig felly dywedodd ei fod yn awyddus i sicrhau fod y gefnogaeth sydd yn cael ei chynnig gan y Llywodraeth i Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol a'r Canol-fannau Gwirfoddoli (sef isadeiledd y Trydydd Sector yng Nghymru) yn addas ar gyfer yr amgylchiadau presennol ac yn darparu'r gwerth gorau am arian.

Wrth gwrs, mae rhai o'r dogfennau allweddol i'r berthynas hon rhwng y Llywodraeth a'r Trydydd Sector wedi bod o gwmpas ers rai blynyddoedd bellach, e.e. y Cynllun Gweithredu Gwirfoddol, yn ogystal â Chod Cyllido y Trydydd Sector. Nododd y Gweinidog bod yn rhaid sicrhau fod y trefniadau cydweithio a threfniadau cyllido y dyfodol yn cyd-fynd â rhaglen waith y Llywodraeth. Nododd hefyd ei fod yn awyddus i sicrhau fod yr arian sydd yn cynnal y Trydydd Sector hefyd yn cefnogi gweithgareddau fydd yn mynd i'r afael â thlodi, a gyda ffocws ar allbynnau. Nododd ei fod yn credu fod modd gwella y ffordd mae'r Llywodraeth a'r Trydydd Sector yn cydweithio trwy fod yn glir am yr hyn ellir ei gyflawni, y rôl sydd gan y trydydd sector i'w chwarae mewn Cymdeithas Gymraeg, sut yr ydym yn ymgysylltu, yn ogystal a'r strwythur sydd yn cefnogi'r trydydd sector. Nododd ei awydd i hon fod yn broses agored wedi ei selio ar gyd-weithio. Bydd yn disgwyl mewnbwn gan fudiadau ac unigolion o'r trydydd sector yn ogystal ac eraill gyda diddordeb a gwybodaeth berthnasol er mwyn siapio'r berthynas newydd.

Erbyn hyn mae amserlen i'r gwaith sef proses o ymgynghori ffurfiol yn nes ymlaen eleni ble bydd pawb yn medru cyfrannu eu sylwadau. Cyn hyn bydd cyfres o ddigwyddiadau gyda'r prif randdeiliaid ar draws Cymru, yn ogystal â chyfres o weithdai anffurfiol. Bydd hyn i gyd yn arwain at ymgynghoriad ffurfiol gyda'r bwriad o sicrhau perthynas waith a phroses gyllido effeithiol rhwng y Llywodraeth a'r Trydydd Sector yng Nghymru.

Felly i'r rhai ohonoch sy'n cael y budd o gefnogaeth Mantell Gwynedd fel Cyngor Gwirfoddol mi ddaw cyfle i chi leisio barn a rhoi mewnbwn. Byddwn yn ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth. Mewn hinsawdd o doriadau ac ad drefnu gwasanaethau mae yn hynod bwysig nad modd o dorri cyllid trwy drws cefn yw hwn a thynnu adnoddau o'r sector ble mae mwy a mwy o bwysau arni dros y blynyddoedd nesaf. Oblegid, heb y gefnogaeth a'r cyllido o gyfeiriad y Llywodraeth, fedrwn ni ddim darparu y gefnogaeth fydd ei hangen dros y cyfnod nesaf.

Mae cyfnod heriol o'n blaenau...

Tan tro nesa!

**Bethan**

**DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF O MANTELL**
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **12fed o Ebrill 2013**
Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at **Ellen ap Dafydd**, Swyddfa Mantell Dolgellau e-bost: **ellenapdafydd@mantellgwynedd.com** • Ffôn **01341 422 575**

## SWYDDOG DATBLYGU MENTRAU CYMDEITHASOL NEWYDD

Penodwyd Bet fel Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol yn Ionawr 2013.

Yn enedigol o Ros Isaf, cafodd ei magu ym Mhenmachno, a bellach mae'n byw yn Llanberis efo'i cheffylau. Bu'n athrawes gynradd a thiwtor Cymraeg i Oedolion cyn gwireddu dyhead ers plentyndod sef cynllunio gwisgoedd. Dilynodd yrfa yn cynllunio gwisgoedd ar gyfer theatr, ffilm a theledu am dros ugain mlynedd cyn ei phenodi fel Brocer Iaith Peblig yng Nghaernarfon. Dyma gynllun a fu'n cefnogi trigolion y ward i uchafu eu sgiliau Cymraeg i geisio am swyddi yn lleol, yn ogystal ag annog mentergarwch.

Yn ei rôl bresennol mae Bet yn hybu datblygiad mentrau cymdeithasol ar draws y sir ac yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i adnabod cyfleoedd busnes a masnachu.
Y gobaith yw sicrhau cynaliadwyedd mudiadau i'r dyfodol trwy adnabod eu potensial busnes. Mae prosiect Cymunedau Mentrus sydd yn cefnogi'r gwaith yma yn cael ei ariannu trwy gronfeydd Ewropeaidd Cydgyfeiriant.

ERDF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

## Cyfieithu Cymunedol

cyfieithu cymunedol

**Ydych chi'n fudiad cymunedol neu elusennol?**

**Oes pobl Cymraeg a di-Gymraeg yn eich cyfarfodydd?**
**Hoffech chi roi'r cyfle i bawb allu siarad yn eu dewis iaith?**

Mae gan Mentrau Iaith y Gogledd brosiect newydd sydd yn rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

Y diben yw cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu ysgrifennedig am bris sydd o fewn cyrraedd grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r cynllun yn rhedeg hyd at Ragfyr 2013.

Os ydych eisiau defnyddio'r gwasanaeth neu angen mwy o fanylion cysylltwch â: Glyn Jones neu Esyllt Tudur ar 01492 642357
***www.cyfieithucymunedol.org***

## Cynhadledd Genedlaethol Dyfodol Cymunedau Cymraeg

hunaniaith
Hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd
Promoting the Welsh Language in Gwynedd

Yn sgîl cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011, mae'r ddegawd yma yn gwbl arwyddocaol i ddyfodol yr iaith Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cynhelir cynhadledd genedlaethol gan Hunaniaith i drafod dyfodol cymunedau Cymraeg, eu nodweddion; y cyfleoedd a'r bygythiadau sydd yn eu wynebu.

Dyddiad: **22-03-13**

Amser: **09:00 – 16.30**

Lleoliad: **Galeri, Doc Fictoria, Caernarfon, LL55 1SQ**

Cost: **£20.00**

Bydd y siaradwyr yn cynnwys:

**Leighton Andrews AC** Gweinidog dros Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru,

**Gwenith Price** Cyfarwyddwr Strategol Comisiynydd y Gymraeg,

**Adam Price**,

**Glyn Price** Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru,

**Meirion Prys Jones**,

**Yr Athro Colin Williams**,

**Iwan Evans** Pennaeth Polisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a

**Marc Jones** Cadeirydd 'Saith Seren' Canolfan Gymraeg Wrecsam

Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle cysylltwch â
***hunaniaith@gwynedd.gov.uk***
neu ffoniwch **01286 679 452**

# Ffrindia'

Cynllun cyfeillio gyllidir drwy raglen Llawn Bywyd, y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer trigolion Gwynedd yw Ffrindia'. Am fwy o fanylion am y cynllun cysylltwch â:

**Nia Haf Jones** – Arfon
01286 672626 • 07786511208 ***nia@mantellgwynedd.com***

**Dawn Thomos** – Dwyfor
01286 672626 • 07786397890 ***dawn@mantellgwynedd.com***

**Gwenlli Haf Evans** – Meirionnydd
01341 422575 • 07786513038 ***gwenlli@mantellgwynedd.com***

Cyfeillion Gwirfoddol
ffrindia'
Voluntary Befrienders
Rhowch eich ffydd mewn ffrind... Put your faith in a friend...

Llynedd daeth Ffion Mared Jones i'r Ganolfan Wirfoddoli i sgwrsio am y cyfleoedd i wirfoddoli gyda'r nosau. Eglurodd Nia Haf, Cydlynydd Arfon sut y byddai Ffrindia' yn ei chefnogi a pha mor werthfawr fuasai dim ond awr o'i hamser.

"Dwi'n edrych ymlaen cymaint i ymweld â Mrs Chalk i gael rhoi'r byd yn ei le dros baned bob wythnos – mae'r amser yn hedfan yn ei chwmni, a phan gyrhaeddai adra dwi wir yn teimlo fy mod wedi gwneud gwahaniaeth".

*Chwith: Ffion Mared gyda Mrs Olive Chalk*

Mae'r cyfeillio rhwng Joan Owen o Abersoch ac Elaine Evans, o Penrhyndeudraeth, yn llwyddiant oherwydd fod ganddynt yr un diddordebau. Mae Elaine yn wirfoddolwr ymroddedig gyda Ffrindia' ac yn cyfeillio unwaith yr wythnos. Maent yn mwynhau bod yn yr ardd, ac ymweld â chanolfannau garddio.

"Mae'n brofiad pleserus iawn," meddai Joan. "Rydym wedi canfod fod gennym ddiddordeb mewn garddio. Mae cael rhywun yn galw am sgwrs yn braf i bobol fel fi, sydd a teulu sy'n byw yn bell"

"Mae'n bleser bod yng nghwmni Elaine a byddaf yn edrych ymlaen yn eiddgar bob wythnos. Ni allaf feddwl am unrhyw beth buaswn yn newid sydd yn ymwneud â Ffrindia', mae o'n wych!"

*Ar y dde: Joan Owen ac Elaine Evans*

### Gwirfoddolwyr Newydd Dwyfor

Llongyfarchiadau i Bet Roberts a Dorothy Hughes *(ar y dde)* ar gwblhau eu hyfforddiant sefydlu. Maent yn awyddus i wirfoddoli gyda Ffrindia' ac yn edrych ymlaen at gyfeillio. Fe fyddant yn ymuno â thîm brwdfrydig o wirfoddolwyr yn ardal Dwyfor.

# Gwefan Gwirfoddoli Cymru … a oes gennych chi gyfleoedd gwirfoddoli sydd angen eu hyrwyddo?

Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales

Os cliciwch ar wefan Gwirfoddoli Cymru – ***www.gwirfoddolicymru.net*** – cewch restr gynhwysfawr o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws Gymru. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sydd yn gyfrifol am weinyddu'r wefan, ac ym mis Ionawr eleni, cafodd y wefan ei hail-lansio. Erbyn hyn, mae'n bosibl i fudiadau sydd yn chwilio am wirfoddolwyr roi manylion cyfle yn syth ar y wefan – ac ar ôl i Ganolfan Gwirfoddoli Gwynedd gymeradwyo'r cyfle – bydd yn fyw ar y wefan. Dyma gyfle gwych i chi hysbysebu am wirfoddolwyr **am ddim!**

Cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd am wybodaeth bellach.

# Wythnos Gwirfoddolwyr

Cofiwch y dyddiadau **1af – 7fed o Fehefin 2013**.

Mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr a gwirfoddoli sy'n cael ei gynnal rhwng 1af a 7fed Mehefin bob blwyddyn. Prif nodau'r Wythnos yw cydnabod, gwobrwyo a recriwtio gwirfoddolwyr.

Beth am wneud yn fawr o'r Wythnos a threfnu digwyddiad i gydnabod a dathlu cyfraniad gwirfoddolwyr i'ch mudiad chi?

Bydd Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn trefnu gweithgareddau i ddathlu'r wythnos – manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

## GWOBR GWIRFODDOLWR Y FLWYDDYN CYMRU 2013

Galw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr arbennig!

Oes yna unigolyn ysbrydoledig yn eich cymuned? Neu grŵp o bobl sy'n gweithio'n galed i helpu eraill ac sy'n rhoi'n hael o'u hamser i wella bywyd pobl eraill? Os felly, dyma eich cyfle chi i'w henwebu ar gyfer **Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2013**!

Mae dewis o bum categori sef:

**Person ifanc o dan 25 oed • Oedolyn** (25 oed a hŷn)
**Gwirfoddolwyr gwyrdd • Ymddiriedolwyr**
**Grŵp gwirfoddol** (sy'n cynnwys o leiaf 2 berson)

Y llynedd, derbyniwyd 140 o enwebiadau drwy Gymru, a saith ohonynt o Wynedd. Yn flynyddol, bydd pawb a enwebir o Wynedd yn cael gwahoddiad i ddod i'r "Te Dathlu a Diolch" a gynhelir yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr, a chyflwynir tystysgrifau iddynt. Bydd enillwyr cenedlaethol (3 ymhob categori) yn cael eu gwahodd i ddigwyddiad dathlu yng Nghaerdydd, a'r llynedd llwyddodd Mr Wil Huntley o'r Bermo gyrraedd y brig yn genedlaethol. Felly … meddyliwch am ychydig, ond peidiwch ag oedi oherwydd rhaid i'r enwebiadau gyrraedd CGGC, Caerdydd erbyn 12fed Ebrill 2013.

Am ragor o fanylion a/neu ffurflenni enwebu, cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd.

## CYSTADLEUAETH TYNNU LLUNIAU – CYFLE I ENNILL HAMPER I'CH MUDIAD!!!

Eleni eto, mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn gwahodd unigolion a/neu fudiadau i anfon llun sydd yn cyfleu **GWIRFODDOLI yng Ngwynedd**.

Rydyn ni'n chwilio am luniau o bobl yn gwirfoddoli, gallant fod o unrhyw oed, yn gwneud unrhyw weithgaredd. Gall unrhyw un, o unrhyw oed, gystadlu, ond mae'n rhaid …

• I'r ffotograffydd gael caniatâd y rhai fydd yn y llun cyn ei anfon atom;
• Anfon 'ffurflen gystadlu' (ar gael o'r Ganolfan Wirfoddoli) gyda phob llun;
• Y dyddiad cau yw 20fed Mai 2013.

Canllawiau llawn ar gael o'r swyddfa, cysylltwch â'r Ganolfan Wirfoddoli

**Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd**
**01286 672626**
***gwirfoddoli@mantellgwynedd.com***

# Cartref newydd i 'Meic'

**Mae Meic, y gwasanaeth cymorth ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc, wedi symud i swyddfeydd newydd ym Mae Caerdydd, a hynny wrth ddathlu ail ben-blwydd ei linell gymorth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.**

Nid cwynion a chyngor yn unig sy'n cael sylw Meic. Er bod eiriolaeth weithiau'n cynnwys y ddau, mae'r pwyslais ar wrando a gwneud yn siŵr fod dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed gan eraill, p'un a yw'r eiriolwr yn cytuno a'i peidio. Drwy wrando ar blant a phobl ifanc mae modd eu diogelu'n well.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwenda Thomas:

**"Rwy'n ymwybodol o'r gwahaniaeth enfawr y mae Meic yn ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc. Rwy'n credu bod darparu eiriolaeth a chymorth i blant a phobl ifanc yn hanfodol i'r diogelwch sylfaenol y maent yn ei haeddu."**

# Gwirfoddolwr y Mileniwm

**Elain Siân Roberts** a **Llion Hughes**, Blwyddyn 13 Ysgol Brynrefail yn derbyn eu tystysgrifau Gwirfoddolwr y Mileniwm.

Cafodd Elain ei chydnabod am wirfoddoli 50 awr gyda'r Urdd. Oherwydd ei bod wedi bod yn gwirfoddoli yn y maes chwaraeon mae hi'n derbyn tystysgrif 50 awr Chwaraeon.

Llion yn derbyn tystygrif 50 awr am wirfoddoli yn Menter Fachwen a'r W.R.V.S. yn Ysbyty Gwynedd.

**Llwyddiannau eraill cynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm …**

**Gwenan Mair Williams**:
50 awr o wirfoddoli – Ysgol Bro Lleu a Capel y Groes;

**Georgina Fletcher**:
Tystygrif 50 a 100awr o wirfoddoli – CIP;

**Mari Fflur Rowlinson**:
50 awr o wirfoddoli – Y Groes Goch a Siop Tŷ Gobaith;

**Elliw Haf Griffith**: 50 awr o wirfoddoli – Ysgol Brynrefail ac Eisteddfod Llanrug;

**Rachel Williams**: 50 awr o wirfoddoli – CIP a Chlwb Rotari Pwllheli.

Cymunedau Mentrus Enterprising Communities

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol Growing Local Social Enterprise

# Canolfan Fenter i Ben Llŷn

Mae Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf bellach wedi dod i ben ym Mhen Llŷn, ond mae'r gwaith yn mynd ymlaen gan Cymydmaen cyf, y cwmni sefydlwyd allan o Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf. Un o brosiectau a ddeilliodd o waith Cymunedau'n Gyntaf oedd Canolfan Fenter Congl Meinciau ym Motwnnog. Cywaith, is-gwmni i Tai Eryri yw perchnogion yr adeilad, ac mae'n rhan o brosiect Tai, laith, Gwaith sydd â'r nod o sicrhau cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn Llŷn.

Bellach, mae Gwenan Griffith yn Swyddog Cynhwysiant Digidol a Meinir Jones yn Reolwr Prosiect Cymydmaen.

O dan nawdd y prosiect Cymunedau 2.0 mae Gwenan yn gallu helpu pobl i ddod yn hyderus i ddefnyddio cyfrifiaduron. Galwch heibio, cewch gyngor rhad ac am ddim. Cynnyrch Llŷn yw'r prosiect arall. Mae hwn yn brosiect i helpu unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu bwydydd neu gynnyrch arall yn lleol. Galwch heibio unrhyw adeg.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch **01758 770001** neu ***post@conglmeinciau.com***

# Gweithdai Systemau Rheoli Amgylcheddol

Mae Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd® yn cynnig fframwaith i gwmnïau a sefydliadau ddatblygu system rheolaeth amgylcheddol cydnabyddedig sy'n …

- lleihau defnydd o ynni ac arbed costau,
- gwella effeithlonrwydd perfformiad,
- cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol,
- yn galluogi sefyll allan ymhlith cystadleuwyr.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai yng Nghaernarfon a Phenrhyndeudraeth gydag Emlyn Williams o Groundwork Gogledd Cymru i esbonio'r broses.

System fesul cam yw'r Ddraig Werdd, sy'n cynnwys pum lefel cyrhaeddiad. Gall sefydliad wneud cais ar y lefel sy'n gweddu eu maint, eu strwythur a'u gweithgareddau.

Wedyn, gallent wneud cais ar lefel uwch os ydynt am wella eu perfformiad amgylcheddol ymhellach. Cydnabyddir llwyddiant unrhyw lefel drwy ardystiad ac ychwanegiad at Gofrestr Gwefan y Ddraig Werdd®, gan arddangos cynnydd sefydliad a'u hymrwymiad i reolaeth amgylcheddol.

Os dymunwch gopi electroneg o gynnwys y gweithdai, cysylltwch â ***bethuws@mantellgwynedd.com***

# Digwyddiad Rhwydwaith Iechyd, Gofal a Lles

Cynhelir y digwyddiad nesaf ar ddydd Mawrth, Mawrth 19eg yn y Ganolfan (ger y Cob) ym Mhorthmadog am 10 y bore. Mae'r cyfarfodydd yma yn gyfle ardderchog i dderbyn a rhannu gwybodaeth berthnasol. Bydd cynrychiolydd o'r WCVA yn rhoi cyflwyniad ar "Bond Lles Cymru" a bydd cyfle i drafod ymhellach a gwyntyllu potensial y cynllun.

Bydd pwyslais hefyd yn y cyfarfod ar gomisiynu gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Am fwy o wybodaeth neu i archebu eich lle cysylltwch â Sioned ar **01286 672626** neu ***sioned@mantellgwynedd.com***

*Rhai o fynychwyr y Rhwydwaith diwethaf a gynhaliwyd ar Ragfyr y 4ydd 2012 ym Mhorthmadog*

# Prosiect Taith: Gwasanaeth Cefnogi Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr a'u Teuluoedd

Nod y prosiect yw sicrhau bod oedolion ifanc rhwng 16 a 25 sy'n ofalwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gydag addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu huchelgais a datblygu eu potensial i'r eithaf.

Dyma rai o enghreifftiau o sut gall y prosiect roi cefnogaeth:

- Datblygu sgiliau bywyd/gwella hunanhyder a hunan-barch,
- Cyngor ar faterion ariannol a thai,
- Cyfeirio at asiantaethau eraill a all fod o gymorth i'r unigolyn a'i deulu,
- Eiriolaeth,
- Cefnogaeth unigol ar faterion sy'n effeithio'r person ifanc,
- Cyfleoedd i gwrdd ag oedolion ifanc eraill sy'n ofalwyr a gwybodaeth ynglŷn â hawliau gofalwyr.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gweithredu Dros Blant ar 01248 353 095 neu ***gwyneddyoungcarers@actionforchildren.org.uk***

# Y Drafodaeth Fawr ar Iechyd

Mae Llywodraeth Cymru yn holi a ddylid cyflwyno cyfreithiau newydd mewn ymateb i rai o'r heriau mawr sydd yn ein hwynebu ym maes iechyd ac am wybod a ddylid mynnu fod y GIG, yr awdurdodau lleol a chyrff eraill yn gwneud mwy i wella iechyd y cyhoedd.

Mae'n bosibl ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â chael Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru ar ***http://cymru.gov.uk/consultations/healthsocialcare/publichealth/?lang=cy***

# Recriwtio Ymddiriedolwyr!

Mae **Cymorth i Ferched Bangor** yn cefnogi teuluoedd sydd wedi dioddef o drais yn y cartref ac yn ceisio eu grymuso a'u galluogi i wneud dewisiadau a gweithredu ar sail gwybodaeth. Gall y mudiad hefyd gynnig llety mewn argyfwng a chefnogaeth i ferched a'u plant i aros yn eu cartref eu hunain. Mae'r mudiad ar hyn o bryd yn chwilio am ymddiriedolwyr sy'n unigolion brwdfrydig ac sy'n gallu cyfrannu at waith y mudiad.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag ***enquiries@bangorwomensaid.org*** neu **01248 679077**.

# Cyfarfod Cynghrair Cyflyrau Iechyd Tymor Hir De Gwynedd

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun, Mawrth 4 2013 am 10 y bore yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau. Croeso cynnes i bawb. Am fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â Sioned ar **01286 672626** neu ***sioned@mantellgwynedd.com***

# Teulu Ni

Dros y misoedd diwethaf mae'r Cyfeillion Teulu wedi bod yn canolbwyntio ar ymweld â mudiadau i'w hysbysu o waith y prosiect.

Mae'r galw am gefnogaeth y prosiect wedi cynyddu ac mae naw o deuluoedd rhwng y tair ardal o Wynedd bellach yn derbyn gwasanaeth. Mae'r galw am wasanaeth yn amrywio o deulu i deulu gyda'r gwasanaeth yn cael ei deilwra yn arbennig ar gyfer anghenion unigol y teuluoedd dan sylw, er enghraifft:

- Cefnogi rhieni i fynychu apwyntiadau,
- Cefnogi tadau i fynychu sesiynau mewn canolfannau hamdden gyda'r plant,
- Cefnogi teuluoedd i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud i'w cartrefi,
- Sesiynau coginio gyda theuluoedd,
- Cefnogi rhieni i fentro allan o'r tŷ,
- Trefnu sesiynau nofio i blant.

Yn ystod yr wythnosau nesaf – byddwn yn trefnu gweithgaredd gyda holl deuluoedd sy'n derbyn gwasanaeth y prosiect ac yn ymweld â dau brosiect Rhaglen Gwella Dyfodol y Gronfa Loteri Fawr yn Ne Cymru: Prosiect Eleri yng Nghaerdydd â phrosiect Cysylltu Teuluoedd ym Mhen y Bont Ar Ogwr.

Am fwy o wybodaeth am gyfleoedd i deuluoedd cysylltwch â:
Mair Richards,
Rheolwr Prosiect ar **01286 672 626**
neu trwy e-bost:
***teuluni@mantellgwynedd.com***

# Ydych chi wedi ystyried cael cefnogaeth gan Fentor?

Busnesau yn Cefnogi Cymunedau
Business Supporting Communities

Gall 'Busnes yn Cefnogi Cymunedau' ddod o hyd i unigolion i fentora grwpiau cymunedol sy'n dymuno ychydig o gymorth ychwanegol.

Mae Mentoriaid B2C yn dod o bob math o gefndir a phroffesiwn, ond mae pob un yn arbenigwr yn ei faes, e.e. Cyfathrebu, Personél, Marchnata, Technoleg Gwybodaeth, Cyllid, Rheoli Busnes. Mae'r hyn y mae pob Mentor B2C yn ei gynnig yn dibynnu ar ei gymwysterau.

Mae mentora'n broses lle mae un yn cynorthwyo un arall i gyrraedd nod penodol. Darperir cefnogaeth briodol ar gyfer y Mentor a'r grŵp cymunedol neu unigolyn gan dîm prosiect B2C. Fel rhan o'r broses i ddewis Mentor, bydd pob grŵp cymunedol neu unigolyn yn paratoi amlinelliad o'r prosiect, ar y cyd â'r Swyddog B2C.

Bydd y Mentor B2C yn:

- Gweithredu fel 'pâr arall o lygaid' i grwpiau cymunedol ac unigolion;
- Cynnig cyngor ond nid cyfarwyddyd yn seiliedig ar ei wybodaeth, ei sgiliau a'i brofiad personol;
- Amyneddgar, yn anfeirniadol, yn ddibynadwy, a phob amser yn parchu cyfrinachedd;
- Gweithredu fel ffynhonnell gymorth annibynnol, ond ddim yn cymryd lle'r gwasanaethau cefnogol sydd eisoes mewn bodolaeth.

Am yr wybodaeth a'r newyddion diweddaraf ewch i'n gwefan neu dilynwch ni ar Facebook, Linked In, neu Twitter.

Cysylltwch â'ch tîm yn Mantell Gwynedd …

Emily Williamson ***emily@b2cwales.co.uk***
neu Rosie Seymour ***Rosie@b2cwales.co.uk***

**www.b2cwales.co.uk**

# Prosiect 'Gwneud y Cysylltiadau'

Menter a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru yw "Gwneud y Cysylltiadau" sy'n gweithredu yn ardaloedd Cydgyfeiriant Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae agenda 'Gwneud y Cysylltiadau' yn annog gwell cydweithio ar draws sectorau yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaethau gwell i ddinasyddion.

Prif fwriad y prosiect yw sicrhau gwell mewnbwn gan y trydydd sector i feysydd blaenoriaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ac uchafu ei rôl mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yng Ngwynedd a Môn mae'r partneriaid allweddol yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (sy'n cynnwys arweinwyr o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Prifysgol Bangor, Llywodraeth Cymru, Mantell Gwynedd, Medrwn Môn, Heddlu Gogledd Cymru, Coleg Menai a'r ddau Awdurdod Lleol).

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i wella ansawdd bywyd ein dinasyddion ac yn datblygu Cynllun Integredig Sengl drwy integreiddio pedair cynllun allweddol (Cynllun Cymunedol, Cynllun Strategaeth Iechyd a Lles a Gofal Cymdeithasol, Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol). Bydd y dull newydd symlach hwn o weithio'n adnabod y canlyniadau mae'r Bwrdd yn dymuno eu cyflawni ynghyd â chael dylanwad cadarnhaol ar fywydau pobl yn ein cymunedau.

Bydd y Bwrdd nawr yn edrych ar flaenoriaethau Cynllun Integredig Sengl Gwynedd (Gwella Gwynedd Gyda'n Gilydd ***www.gwyneddarycyd.org.uk***) a Chynllun Integredig Sengl Môn (Ein Hynys – Ein Dyfodol ***www.ynysmon.gov.uk***) ac yna'n creu un cynllun ar y cyd ar gyfer Gwynedd a Môn. Disgwylir i'r Cynllun ar y Cyd gael ei gyhoeddi ym mis Awst 2013.

Er mwyn sicrhau gwasanaethau gwell i'n dinasyddion, bydd rhaid rhannu adnoddau a sicrhau cydweithio o ddifrif er mwyn osgoi dyblygu ac er mwyn ychwanegu gwerth. Heb amheuaeth - bydd rôl y trydydd sector yn hanfodol yn y datblygiadau hyn.

Ymhen amser, bydd yr Awdurdodau Lleol yn datblygu cynlluniau comisiynu, ac yn sgil hyn, byddent yn mynd ati i edrych ar y cytundebau lefel gwasanaeth presennol, gan edrych ar bwy yn y trydydd sector sydd â record dda o ddarparu, ac yn meddu cynlluniau busnes cadarn.

Mae hyn yn gyfle i fudiadau'r trydydd sector brofi eu gwerth, a dangos bod eu mewnbwn yn hanfodol i ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn.

**Be allwch chi ei wneud?**

Mae'n werth cymryd cam yn ôl, a mynd ati i edrych yn fanwl ar eich polisïau a'ch gweithdrefnau …

- Oes gennych chi Gynllun Busnes cyfredol?
- Oes gennych chi gyfrifon cyfredol wedi eu harchwilio?
- Oes gennych chi Bolisi Iechyd a Diogelwch?
- Oes gennych chi Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth?
- Oes gennych chi Bolisi Amgylcheddol?
- Oes gennych chi Bolisi Diogelu Data?
- Oes gennych chi Systemau Rheoli Ansawdd?

I geisio am gytundeb gwasanaeth o unrhyw fath, mae'n syniad da sicrhau bod y polisïau yma mewn lle ac wedi eu diweddaru. Dyma eich cyfle – nawr ydi'r amser i fynd ati a chael eich 'tŷ mewn trefn'.

Gall eich Swyddog Datblygu Prosiect 'Gwneud y Cysylltiadau' eich helpu gyda hyn.

Ffoniwch: **01286 672626**
neu e-bostiwch:
***carol@mantellgwynedd.com***
i drefnu apwyntiad.

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Cronfa Buddsoddi Cymunedol

Mae'r gronfa yma ar gael i gryfhau a datblygu grwpiau a mentrau o fewn y trydydd sector ledled Gwynedd. Pwrpas hyn yw galluogi'r trydydd sector (sector wirfoddol) i allu chwarae rhan gyflawn o fewn cymunedau Gwynedd. Gall grwpiau wneud cais am grant cyfalaf a/neu refeniw hyd at uchafswm o £10,000.

Gellir cyflwyno ceisiadau ar gyfer y rownd nesaf (yn ddibynnol ar gyllid ar gael) erbyn dydd Iau, Mawrth 28ain, 2013 cyn 5.00 pm.

Y dyddiadau cau ar gyfer 2013-14 fydd:

28ain Mehefin 2013
27ain Medi 2013
3ydd Ionawr 2014 (yn ddibynnol os bydd cyllid yn weddill)

Os oes gennych syniad am brosiect newydd y gall eich cymuned elwa ohono, cysylltwch â Mantell Gwynedd ar 01286 672 626 neu ***delyth@mantellgwynedd.com*** neu ewch i ***www.mantellgwynedd.com***

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Gall grwpiau wneud cais am hyd at £1,000 trwy gysylltu yn uniongyrchol ag Elin Morris, Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar ***elin.morris@ccgwynedd.org.uk*** neu **0300 123 8084**.

## Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

Cyhoeddir **Mantell** gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd.

Cedwir pob hawl i olygu cyn cyhoeddi.

# Cronfa'r Degwm yng Ngwynedd

Mae Cronfa'r Degwm yn deillio o Ddeddf Eglwysi Cymru 1914. Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu'r gronfa ac yn dosbarthu llog o'r gronfa ar ffurf grantiau yn flynyddol i elusennau cofestredig yng Ngwynedd.

Y bwriad yw galluogi'r sector wirfoddol i chwarae rôl gyflawn yng nghymunedau Gwynedd drwy adlewyrchu un neu ragor o'r amcanion canlynol:

(i) Hybu gwybodaeth a gwerthfawrogiad o gelfyddydau a llenyddiaeth Cymru;

(ii) Darparu neu gynorthwyo i ddarparu cyfleusterau ar gyfer adloniant neu weithgarwch amser hamdden arall;

(iii) Hybu diddordeb pensaerniol, hanesyddol neu wyddonol sy'n ymwneud â Chymru;

Croesawir ceisiadau o hyd at £1,000 ar unrhyw adeg.

Disgwylir i geisiadau fod yn seiliedig ar gynlluniau neu wasanaethau newydd sydd yn cyflawni amcanion pendant ac amlwg.

Gellir gwneud cais ar gyfer Cronfa'r Degwm drwy lenwi'r ffurflen gais pwrpasol.

Am becyn cais cysylltwch â:

**Uwch Swyddog Cist Gwynedd – 01286 679153.**

# Ymddiriedolaeth Plunkett:

## Cefnogaeth newydd wedi'i lansio i adfywio ardaloedd gwledig trwy fenter gymdeithas

Mae Ymddiriedolaeth Plunkett mewn partneriaeth â Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairn wedi creu rhaglen i gefnogi cymunedau gwledig i sefydlu neu arallgyfeirio gwasanaethau cymunedol megis siopau a thafarndai er mwyn ceisio adfywio ardaloedd gwledig sydd ar drai ar draws Prydain. Fe fydd y gefnogaeth a ariennir gan Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairn yn darparu cefnogaeth ac anogaeth i gymunedau sy'n cysidro cymryd perch-nogaeth o wasanaethau cymunedol gan ddarparu cyfuniad o gefnogaeth ymgynghorydd, hyfforddiant, grantiau tuag at astudiaethau dichonoldeb hyd at £2,000 a chyfleoedd i rwydweithio gyda mentrau cymdeithasol gwledig eraill ar draws Prydain. Bydd y gefnogaeth yn ffocysu'n benodol ar y syniadau cychwynnol gan gymun-edau a chynorthwyo hwy i ddatblygu i'r cam nesaf. i fod yn gymwys am gefnogaeth mae'n rhaid i'r cymun-edau anelu at godi o leiaf £10,000 o arian eu hunain trwy gefnogaeth a chyfranddaliadau gan drigolion y gymuned leol.

Am fwy o wybodaeth ewch i ***www.plunkett.co.uk*** neu ffoniwch **01993 810 730**.

## HYFFORDDIANT MANTELL GWYNEDD

| Teitl | Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|
| Iechyd a Diogelwch | 12-03-2013 | Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon |
| Cyfraith Cyflogaeth | 13-03-2013 | Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon |

## HYFFORDDIANT WCVA

| Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|
| 07 Mawrth 2013<br>**Cael cyhoeddusrwydd ar gyfer eich eich prosiect a ariennir gan yr UE** | Aberysywyth |
| 12 Mawrth 2013<br>**Tystysgrif ragarweiniol mewn codi arian** | Y Rhyl |
| 13 Mawrth 2013<br>**Ymgysylltu â … phobl hŷn – NEWYDD!** | Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth |
| 19 Mawrth 2013<br>**Sefydlu rhwydwaith** | Plas Pentwyn, Wrecsam |
| 20, 21 Mawrth a 17 Ebrill 2013<br>**Sgiliau hyfforddi (wedi'i achredu gan Agored Cymru)** | Y Rhyl |
| 21 Mawrth 2013<br>**Ymgysylltu ag unigolion a chymunedau na chlywir eu llais yn aml** | Canolfan Fusnes Conwy, Llandudno |
| 23 Ebrill 2013<br>**Elfennau sylfaenol o reoli prosiect ar gyfer prosiectau a ariennir gan y UE** | Y Rhyl |
| 02 Mai 2013<br>**Cyflwyniad i godi arian drwy gymynroddion** | Y Rhyl |

Gwybodaeth ar gael ar ***www.wcva.org.uk***

Neu i wneud ymholiadau cyffredinol cysylltwch â Lein Gymorth CGGC (WCVA) ar **0800 2888329** neu ***help@wcva.org.uk***

## CIL DE GWYNEDD

Mae CIL De Gwynedd yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd ar gyfer yr elusen.

Cysylltwch a Diana i ddatgan diddordeb trwy ffonio **01766 514249**.

## COFIWCH FOD UNED SYMUDOL MANTELL GWYNEDD AR GAEL I'W LLOGI …

### COSTAU LLOGI'R UNED

**Aelodau o Mantell Gwynedd:**
£130 y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).

**Defnyddwyr eraill:**
£150 y diwrnod (a phob diwrnod dilynol am hanner y pris).

Mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod telerau arbennig … drwy e-bostio: **ymholiadau@mantellgwynedd.com**

Ffonio: **01286 672 626**

Neu trwy ein gwefan: **www.mantellgwynedd.com**

## CYMUNEDAU MENTRUS

### DYDDIADAU I'R DYDDIADUR …

**Fforwm Neuaddau Cymunedol Gwynedd**

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Fforwm Neuaddau yng Nghanolfan Prenteg

Mawrth 20fed, 2013 am 6.30 y.h.

Bydd John Pooley yn cyflwyno Llawlyfr ar gyfer rheolwyr neuaddau ynghyd â chanllawiau am gasglu data ynni.

**Seminar Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd gyda Eileen Kinsman**

Yn Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog

Mawrth 27ain, 2013 am 1.30 – 4.30 y.h.

Os oes gennych chi ddiddordeb mynychu cysylltwch â
Bet (01286 672626)
neu Ellen (01341 422575) i archebu lle.

## DEWCH I YMUNO Â NI …

**yn Sioe Amaethyddol Meirionnydd ar yr 28ain o Awst yn Y Bala.**

Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i chi – holl fudiadau gwirfoddol sydd yn darparu gwasanaeth yn ardal Meirionnydd – i ymuno â Mantell Gwynedd yn eu pabell ar gae Sioe Sir Meirion eleni. Yn y gorffennol, mae pabell Mantell wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd ar ddiwrnod y sioe, gyda chroestoriad eang o fudiadau gwirfoddol yn rhannu y safle. Gofynnir am gyfraniad tuag at y costau, ond mae gweddill y trefnu i gyd yn cael ei wneud gennym ni.

Felly peidiwch â cholli cyfle – gallwn eich sicrhau o ddiwrnod prysur yng nghwmni ein gilydd – cyfle i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd, ac i rwydweithio â mudiadau eraill gyda phawb dan yr un to.

Codwch y ffôn – **01341 422575** – er mwyn sicrhau eich lle.

## HYFFORDDIANT

Os hoffech drafod anghenion hyfforddiant eich mudiad cysylltwch â **Delyth Vaughan** ar 01286 672626, *delyth@mantellgwynedd.com*

Neu i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cysylltwch ag **Ellen ap Dafydd** ar 01341 422575, *ellen@mantellgwynedd.com*